Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Y Cam Cynta**
**Meithrinfa Ddydd Y Cam Cynta**
**Peniel**
**Caerfyrddin**
**Carmarthenshire**
**SA32 7AB**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Y Cam Cynta

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Y Cam Cynta |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal ddydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Jennifer Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Llinos Evans |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | 0 – 6 mlwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 7 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 8:00 a18:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 13/12/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 30/06/2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/12/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Dd/b** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

R1 Darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu medrau annibynnol y plant

R2 Sicrhau bod yr amgylchedd ddysgu yn caniatáu i'r plant gael mynediad i'r ardal allanol pan maent yn dymuno

R3 Sicrhau bod y cynnydd yn erbyn y targedau yn y cynllun datblygu yn cael ei werthuso gan unigolyn sy'n annibynnol o'r gweithredu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf o’r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol am eu chwarae a’u dysgu yn hyderus. Er enghraifft, maent yn dewis beth yr hoffent chwarae ag ef drwy bwyntio at lun o’r gweithgaredd sydd ar wal yr ystafell. Mae llawer yn estyn adnoddau o’r silffoedd isel yn annibynnol, ac yn tynnu bocsys yn cynnwys offer o’u dewis allan i’r llawr. Ar ddiwedd amser cylch, mae’r llawer o’r plant yn dewis eu stori a’u caneuon yn hollol hyderus.

Mae bron pob plentyn yn hapus, yn ymlacio ac yn setlo’n gyflym i wneud gweithgareddau. Maent yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi’n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â’u gweithwyr allweddol ac maent yn gwenu ar ei gilydd ac yn mwynhau mwythau. Mae bron pob un yn wydn ac yn ymdopi’n dda hyd yn oed os ydynt yn ansicr neu’n drist. Maent yn dychwelydyn ôl i chwarae yn syth ar ôl cael eu cysuro.

Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda ac yn rhyngweithio’n bwrpasol. Maent yn chwarae’n dda â’i gilydd, gan gymryd eu tro a chyd-chwarae’n llwyddiannus. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd sgiliau rygbi cynnar, mae’r plant yn aros eu tro yn erbyn y wal yn amyneddgar, cyn aros am gyfarwyddiadau i redeg i gasglu a rhoi peli yn y bag mawr. Mae rhan fwyaf o’r plant yn cyfathrebu’n gadarnhaol yn ystod amseroedd prydau bwyd gyda llawer o’r plant hŷn yn dweud ‘plîs’ a ‘diolch’ heb i neb eu hatgoffa.

Mae bron pob plentyn yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau, yn dyfalbarhau’n briodol i’w hoedran ac yn dangos chwilfrydedd wrth chwarae’n hyderus gyda’r teganau. Er enghraifft, maent yn mwynhau eistedd yn y pwll peli a dod o hyd i anifeiliaid sydd wedi cuddio ynddo. Maent yn chwerthin yn hapus wrth ddarganfod yr anifeiliaid ac yn gwenu wrth rannu eu llwyddiant gyda’r ymarferwyr. Mae llawer o’r plant iau yn dangos mwynhad ac hyder wrth symud i gerddoriaeth ac yn mynegi hapusrwydd a chyffro.

Mae bron pob plentyn yn llawn cymhelliant ac yn cymryd rhan yn llawen mewn amrywiaeth o weithgareddau sy’n datblygu eu hannibyniaeth yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn tacluso adnoddau, yn arllwys diodydd eu hunain a lledaenu menyn ar eu tost yn ystod amser snac. Mae bron pob plentyn yn datblygu medrau sy’n briodol ar gyfer eu hoedran gyda llawer o’r plant iau yn cyfri i dri yn hyderus, er enghraifft. Mae mwyafrif o’r plant yn dweud pa ddydd yw hi ac yn adnabod y tywydd yn llwyddiannus.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Dd/b**

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol i gadw’r plant yn iach ac yn ddiogel. Er enghraifft, mae pob ymarferwr wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch bwyd ac maent yn dilyn canllawiau rheoli heintiau yn dda. Maent yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau cywir. Mae pob ymarferwr wedi cael yr hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf. Mae’r ymarferwyr yn deall y polisi amddiffyn plant yn llwyr, ac yn gweithredu ar y polisi yn ôl yr angen. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i’r plant chwarae yn gorfforol bob dydd dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn darparu bwydydd a diodydd iach a maethlon i’r plant, gyda’r cogydd yn paratoi prydau bwyd ffres yn ddyddiol.

Mae’r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau llwyddiannus i reoli ymddygiad y plant. Maent yn siarad mewn llais gofalgar ac yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol i annog y plant wrth gwblhau gweithgareddau. Mae’r ymarferwyr yn egluro’u disgwyliadau am ymddygiad yn glir. Er enghraifft, maent yn atgoffa’r plant yn dyner i beidio dringo ar gadair uchel rhag ofn iddynt gwympo a chael dolur.

Mae’r ymarferwyr yn gymwys ac yn brofiadol. Maent yn cynllunio amrywiaeth dda o brofiadau dysgu diddorol sy’n hybu chwilfrydedd y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn annog a chefnogi’r plant iau i ddefnyddio eu synhwyrau wrth chwarae gyda’r jeli coch a gwyrdd. Mae’r ymarferwyr yn arsylwi ac yn olrhain cynnydd y plant yn llwyddiannus gan ddefnyddio’r arsylwadau i gynllunio a darparu ar gyfer camau nesaf yn eu dysgu. Mae trefniadau effeithiol i feithrin anghenion unigol y plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn ystyried dymuniadau’r plant yn ofalus wrth ddewis gweithwyr allweddol. Mae’r ymarferwyr yn annog sgiliau annibynnol y plant yn briodol. Fodd bynnag, mae’r cyfleoedd i’r plant ddatblygu hyn yn gyfyng yn ystod amser snac, gan nad yw pob ymarferydd yn rhoi cyfleoedd i blant osod y byrddau a pharatoi ffrwythau.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn llunio cynlluniau gofal mewn partneriaeth agos â rhieni ac yn gweithio’n dda gydag asiantaethau arbenigol pan fo angen. Maent yn diwallu anghenion unigol y plant yn dda, ac o ganlyniad mae’r plant yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu gwerthfawr i’r plant sydd o ddiddordeb iddynt ac yn bodloni eu hanghenion yn dda. Mae’r cynlluniau wedi eu cydlynu’n ofalus i sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae’r cynlluniau yn sicrhau bod y gweithgareddau a’r profiadau dysgu yn hyblyg, yn ymateb i syniadau ac anghenion penodol y plant, ac yn adeiladau’n systematig ar eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau, wrth iddynt symud o un cyfnod i’r llall. O ganlyniad, mae bron pob un gwrando’n astud, maent yn gwneud marciau ystyriol , yn trafod llyfrau stori yn addas, yn adnabod eu rhifau ac yn defnyddio amrywiol gyfarpar electronig i safon sydd o leiaf yn cyfateb â’u hoed a gallu.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau a diwylliannau Cymru fel Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen, yn briodol. Trefnir cyfleoedd rheolaidd iddynt fynd am dro i'r pentref ac ymweld â'r ysgol gynradd leol, sy'n codi eu hymwybyddiaeth o'u cynefin yn effeithiol. Mae profiadau eraill yn eu hannog i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol. Er enghraifft, maent yn dathlu gŵyl Diwali, a'r flwyddyn newydd Tsieineaidd yn flynyddol.

Datblygir medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant yn gyson trwy amrywiol weithgareddau penodol fel sesiynau i ddysgu sgiliau rygbi syml, dawns a cherdd. Mae bwydo a gofalu am bysgodyn aur y dosbarth yn datblygu dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pethau byw gyda gofal a pharch. Yn yr un modd, mae ymarferwyr yn codi ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gweithredu'n gynaliadwy yn briodol trwy eu hannog i ailgylchu dŵr i ddyfrio'r planhigion.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y plant yn llwyddiannus trwy wrth eu hannog i feddwl am eraill, bod yn garedig i'w gilydd a gwerthfawrogi hyfrydwch byd natur. Fe'i hanogir i fod yn onest, yn deg ac yn barchus ac i ddatblygu'n unigolion moesol sy'n deall egwyddorion bod yn dda yn hytrach na'n ddrwg.

Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfredol a thrylwyr am ddatblygiad plant ac maent yn deall egwyddorion y cyfnod sylfaen yn dda. Maent yn trefnu cyfleoedd addas i'r plant ddewis eu gweithgareddau yn yr ardal ddysgu y tu mewn. Fodd bynnag, er bod ymarferwyr yn trefnu sesiynau priodol i'r plant ddysgu yn yr ardal allanol, cyfyng yw'r cyfleoedd iddynt ddewis pryd maent am wneud hynny yn annibynnol. Mae gan bob ymarferwr ddisgwyliadau uchel o'u hunain ac o'r plant ac maent yn eu hannog i wneud eu gorau yn barhaus. Mae'r rhan fwyaf yn fodelau iaith dda ac yn annog y plant i gyfathrebu'n gyson trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn annog y plant i ymestyn eu hymatebion yn gwbl naturiol trwy eu holi ymhellach ac maent yn cyfieithu unrhyw air Saesneg mae plentyn yn ei ddefnyddio ac yn ei ailadrodd yn y Gymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar Cymraeg y plant.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth dda iawn o anghenion y plant. Maent yn arsylwi arnynt yn gyson ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau nodedig o safbwynt eu cynnydd mewn meysydd penodol. Mae hyn yn eu cynorthwyo i gynllunio gweithgareddau dilynol addas sy'n bodloni anghenion a diddordebau plant yn dda.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r ardal allanol yn cynnig gwagle enfawr i'r plant sy'n cynnwys ardal glaswellt a tharmac. Caiff y plant gyfleoedd i fynd allan i chwarae o leiaf ddwy waith y dydd ond nid ydynt yn gallu mynd a dod i'r ardal allanol yn ôl eu dymuniad.

Mae'r plant yn derbyn gofal mewn adeilad hyfryd, sydd yn cael ei drefnu'n ddeallus i hyrwyddo annibyniaeth y plant a'u hannog i ddysgu a datblygu. Mae'r amgylchedd dysgu yn gyfoethog a chroesawgar a cheir arddangosfa liwgar o syniadau creadigol y plant, sy'n rhoi iddynt ymdeimlad o berthyn. Gwneir defnydd effeithiol o arddangosfeydd i ddathlu cyflawniadau'r plant, er enghraifft mae'r lluniau yn dangos y plant yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yng nghwmni ymwelwyr i'r lleoliad.

Mae'r amgylchedd yn hynod ddiogel a glân, ac o ganlyniad, yn effeithio'n fuddiol ar ddiogelwch a lles y plant. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol wrth i blant gyrraedd a gadael y safle. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd ac mae gan ymarferwyr ymwybyddiaeth da o'r trefniadau i'w dilyn er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod risgiau diangen i blant yn cael eu rheoli neu eu dileu'n effeithiol.

Mae'r adnoddau'n addas ar gyfer oedran a chyfnod datblygu'r plant. Mae ysgod eang o deganau ac offer o ansawdd da, sy'n darparu amrywiaeth a dewis i'r plant ac yn ategu eu dysgu'n llwyddiannus. Mae'r adnoddau'n cydymffurfio â safonau diogelwch ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu storio'n isel i alluogi'r plant i'w hestyn yn annibynnol. Mae adnoddau naturiol a chynaliadwy, fel cegin fwd, pren, uwd a reis yn cyfoethogi chwarae'r plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o adnoddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol sy'n helpu'r plant i ddysgu am y byd amrywiol o'u cwmpas yn llwyddiannus. Mae dodrefn o uchder a meintiau gwahanol yn galluogi'r plant i chwarae a bwyta'n gyfforddus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r person cofrestredig yn gosod disgwyliadau uchel iddi hi ei hun, y staff a'r plant. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r lleoliad, sy'n seiliedig ar safonau uchel o ran lles ac addysg y plant, mewn amgylchedd diogel ac mae wedi llwyddo i gyfathrebu'r gwerthoedd hyn yn glir i'r staff a'r rhieni.

Mae gweithdrefnau recriwtio'r lleoliad yn drefnus ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion. Mae gan bob ymarferwr ddisgrifiad swydd manwl ac mae'r strwythur staffio a'r llinellau atebolrwydd yn glir. Mae hyn yn galluogi'r holl staff i ddeall eu rolau yn glir a'u gweithredu'n gydwybodol. O ganlyniad, mae ethos cadarnhaol a gwerthfawrogol yn bodoli, lle mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn cynnwys ystyried tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd y gofal, yr addysgu a'r dysgu. Maent yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r plant, craffu ar gynllunio, arsylwi sesiynau, a chywain barn y rhieni a'r staff. Defnyddir y gweithdrefnau hunanwerthuso yn effeithiol i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r meysydd ar gyfer gwelliant.

Mae deilliannau'r adroddiad hunanwerthuso yn cyfrannu'n uniongyrchol at y targedau gwella yn y cynllun datblygu synhwyrol. Mae'r cynllun hwn yn nodi targedau clir, camau gweithredu manwl, y sawl sy'n gyfrifol am y gweithredu, yr adnoddau sydd eu hangen a'r effaith ar safonau. Fodd bynnag, mae cynnydd yn erbyn y targedau yn aml yn cael ei werthuso gan yr un person sydd hefyd â chyfrifoldeb am weithredu. Mae hyn yn ei wneud yn anodd iddynt fesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn ddigon gwrthrychol. Gan fod y cynllun yn berthnasol i'r garfan plant sy'n bresennol ar unrhyw adeg, caiff ei werthuso'n barhaus ac ychwanegir ato pan fydd angen.

Neilltuir cyllid priodol i'r cynllun. Un enghraifft nodedig o effaith cynllunio ar gyfer gwelliant ar ansawdd y dysgu a lles plant yw sut yr adnabuwyd yr angen i ddatblygu'r ardal allanol. Mae arweinwyr wedi ymateb yn dda i'r angen i ddatblygu'r ardal hon er nad yw'r defnydd cyfredol ohono yn datblygu digon ar annibyniaeth y plant ar hyn o bryd.

Mae partneriaeth y lleoliad gyda rhieni yn gryf. Mae ymarferwyr yn trafod anghenion a hoffterau unigol y plant gyda'r rhieni cyn ac yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn gwrando arnynt yn barhaus, yn cywain eu barn ac yn gweithredu'n briodol, er enghraifft wrth ymateb i'w syniad am gyflwyno gwisg benodol ar gyfer y plant neu'r angen i ailwampio'r ardal allanol. Mae ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda'r rhieni i'w cynorthwyo i wella lles a dysgu'u plentyn o ddydd i ddydd. Er enghraifft, maent yn rhannu'r 'Bagiau Chi a Fi' a'r 'Tedi Dwyieithog' gyda nhw, a'u hannog i fenthyg llyfrau o'r llyfrgell i'w hannog i ddarllen i'w plant. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybod yn gyson i rieni am ofal, datblygiad a chynnydd eu plant. Maent yn eu gwahodd i nosweithiau agored, neu drafod gyda nhw wrth y drws yn ddyddiol. Rhoddir gwybodaeth i rieni am ddigwyddiadau, polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar ffurf cylchlythyr. Mae rhieni yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/02/2020